NASUWT CYMRU
Undeb yr Athrawon The Teachers' Union

Briff

# Newidiadau i drethiant pensiynau ym mis Ebrill 2016

## Y Lwfans Blynyddol a’r Lwfans Oes

Egwyddor gyffredinol y gyfundrefn trethi pensiynau yw bod cynilo pensiynau wedi ei eithrio rhag trethu, ac mai pan fydd y pensiwn yn cael ei gymryd y bydd yn cael ei drethu. Fodd bynnag, mae'r Lwfans Blynyddol a’r Lwfans Oes yn gosod terfynau i'r egwyddor hon.

Mae'r Lwfans Blynyddol yn cyfyngu rhyddhad treth ar dwf pensiynau ac mae’r Lwfans Oes yn cyfyngu ar y buddiannau a gymerwyd o gynllun pensiwn, cyn arwain at daliadau treth ychwanegol. Os eir dros y lwfansau hyn, bydd treth yn daladwy cyn i'r pensiwn gael ei dalu.

## Y Lwfans Blynyddol

Mae'r Lwfans Blynyddol yn gosod terfyn ar dwf di-dreth neu gyfraniadau at bensiwn y cynilwr ym mhob cynllun pensiwn cofrestredig mewn blwyddyn dreth. Os eir dros derfyn y Lwfans Blynyddol, mae hyn yn arwain at dâl treth Lwfans Blynyddol. Y Lwfans Blynyddol ar gyfer blwyddyn dreth 2016 (sy'n dechrau ar 6 Ebrill) yw £40,000, sy'n union yr un fath â blwyddyn dreth 2015. Gallai amgylchiadau fel cynnydd mawr mewn cyflog neu brynu pensiwn ychwanegol arwain at fynd dros drothwy’r Lwfans Blynyddol. Os eir dros drothwy’r Lwfans Blynyddol, yr athro sy’n gyfrifol am ddatgan hyn i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) drwy hunanasesiad treth.

Os bydd aelod o’r Cynllun Pensiwn Athrawon yn mynd dros drothwy’r Lwfans Blynyddol, bydd Pensiynau Athrawon yn rhoi Datganiad Cynilon Pensiynau iddo. Gall aelodau'r Cynllun Pensiwn Athrawon hefyd ofyn am Ddatganiad Cynilion Pensiynau os ydyn nhw’n credu eu bod nhw’n agos at y Lwfans Blynyddol. Mae Datganiadau Cynilon Pensiynau a ddarperir gan Pensiynau Athrawon mor gywir â'r wybodaeth a ddarperir gan gyflogwyr ar y Ffurflen Wasanaeth Flynyddol i Pensiynau Athrawon, ac os nad yw cyflogwr yn cyflwyno ei Ffurflen Wasanaeth Flynyddol, neu’n ei chyflwyno’n hwyr, efallai y bydd y Datganiad Cynilion Pensiynau yn anghyflawn.

Mae'r NASUWT yn cynnal ymgyrch wybodaeth flynyddol lwyddiannus iawn ar y Ffurflen Wasanaeth Flynyddol, i gynghori aelodau os nad yw eu cyflogwr wedi cyflwyno ei Ffurflen Wasanaeth Flynyddol i Pensiwn Athrawon. Fodd bynnag, os yw aelodau’n bryderus ynghylch y mater hwn, fe ddylen nhw gysylltu â Pensiwn Athrawon yn uniongyrchol, a fydd yn gallu rhoi gwybod iddyn nhw a yw eu cyflogwr wedi cyflwyno’r Ffurflen Wasanaeth Flynyddol.

## Y Lwfans Oes

Bydd cynilwyr pensiwn yn talu treth os yw gwerth eu cronfa bensiwn yn fwy na'r Lwfans Oes, sy'n lleihau o £1.25 miliwn i £1 filiwn ar 6 Ebrill 2016.

Mae gwerth y pot pensiwn yn cael ei gyfrifo ar gyfer aelodau'r Cynllun Pensiwn Athrawon drwy luosi'r pensiwn sy'n cael ei dalu ag 20 ac ychwanegu gwerth y cyfandaliad, i roi ffigwr cyfalaf.

Er enghraifft, byddai pensiwn o £40,000 y flwyddyn, gyda chyfandaliad o £200,000, yn cyrraedd terfyn y Lwfans Oes o £1 filiwn. Byddai cynilion pensiwn ychwanegol hefyd yn cyfrif tuag at y Lwfans Oes. Byddai unrhyw or-dâl ar y Lwfans Oes yn agored i dâl treth ychwanegol o 25 y cant, y mae Pensiwn Athrawon yn gyfrifol am ei dalu i CThEM.

Mae'n bosibl gwneud cais am amddiffyniadau yn erbyn effaith y gostyngiad yn y Lwfans Oes, a dylai aelodau'r NASUWT gysylltu â CThEM yn uniongyrchol i wneud hyn, drwy www.gov.uk/tax-on-your-private-pension/lifetime-allowance.

Mae'r NASUWT yn argymell yn gryf y dylai aelodau gymryd cyngor ariannol unigol os ydyn nhw'n credu y gallen nhw gael eu heffeithio gan y gostyngiad yn y Lwfans Oes, neu os ydyn nhw'n credu eu bod nhw'n agos at y terfyn Lwfans Blynyddol. Yn unol â'r gyfraith, ni all Undebau roi cyngor ariannol unigol, ac mae'r NASUWT yn argymell Wesleyan fel ei ddarparwr cyngor ariannol cymeradwy i aelodau, at y diben hwn. Mae modd cysylltu â Wesleyan drwy www.wesleyan.co.uk/teachers neu 0800 316 7183.

Mae gwefan y Cynllun Pensiwn Athrawon yn darparu gwybodaeth ychwanegol am y Lwfans Blynyddol a'r Lwfans Oes ar www.teacherspensions.co.uk/members/faqs/new-and-working-years/annual-and-lifetime allowances.aspx.

Mae'r NASUWT yn cyfarfod yn rheolaidd gyda Pensiwn Athrawon ac wedi nodi'n glir mai un o'r blaenoriaethau uchel o ran Pensiwn Athrawon yw diwygio prosesau casglu data fel bod aelodau'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn cael gwybodaeth amser real am eu pensiwn cronedig, er mwyn galluogi athrawon i gynllunio'n effeithiol yn ariannol ac osgoi biliau treth diangen.

NASUWT CYMRU
Undeb yr Athrawon The Teachers' Union

Ffôn: 029 2054 6080
E-bost: rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk
Gwefan: www.nasuwt.org.uk